



Cyngor
Osteopathig
Cyffredinol

**Gwneud cwyn am aelod
o strwythur llywodraethu'r
Cyngor Osteopathig
Cyffredinol**

CYFLWYNIAD

1. Mae'r Cyngor Osteopathig Cyffredinol yn ymrwymedig i ddarparu gwasanaeth hygyrch o ansawdd uchel yn unol â'i amcan statudol, sef 'rheoleiddio a datblygu'r proffesiwn osteopathig'. Bydd unrhyw gwynion a/neu bryderon am Aelodau strwythur llywodraethu'r Cyngor (aelodau'r Cyngor a'r pwyllgorau, panelwyr addasrwydd i ymarfer, ac aelodau gweithgorau ad hoc), neu unigolion eraill sy'n gweithredu ar ran y sefydliad, ac sy'n dod o dan **God Ymarfer y Cyngor**, yn cael eu harchwilio'n llawn a bydd camau gweithredu priodol yn cael eu cymryd.

CWMPAS

2. Mae'r weithdrefn a ddisgrifir yn y ddogfen hon yn darparu llywyr ffurfiol ar gyfer codi cwynion gyda'r Cyngor Osteopathig Cyffredinol. Lle bo'n bosibl, fodd bynnag, anogir y rhai sy'n gwneud cwyn i godi pryderon yn uniongyrchol gyda'r unigolyn dan sylw yn y lle cyntaf, er mwyn ceisio datrys y mater yn fuan. Pan na fydd hyn yn datrys y mater, neu mewn sefyllfaoedd pan nad yw hyn yn briodol, gellir defnyddio'r weithdrefn gwyno ganlynon sy'n ddau gam.
3. Dylid defnyddio'r weithdrefn hon i ymdrin â chwynion am unigolion sy'n ddarostyngedig i God Ymarfer y Cyngor. Nid yw'r weithdrefn hon ar gyfer ymdrin â chwynion am aelod o staff y Cyngor. Ymdrinnir â'r cwynion hyn o dan weithdrefn gwyno gorfforaethol y Cyngor, ac mae manylion y weithdrefn honno i'w gweld ar **wefan y Cyngor**.

SUT I WNEUD CWYN

4. Gallwch wneud cwyn yn ysgrifenedig neu dros y ffôn. Os ydych yn cyflwyno cwyn yn ysgrifenedig rhowch eich rhif ffôn os yw ymateb dros y ffôn yn gyfleus i chi. Os ydych yn cyflwyno eich cwyn mewn e-bost dywedwch a fyddai ateb mewn e-bost yn dderbyniol ac, os na, rhowch eich cyfeiriad post llawn. Ym mhob achos, fodd bynnag, bydd gofyn i chi lofnodi datganiad yn cadarnhau nad oes gennych chi wrthwynebiad i'r unigolyn dan sylw weld eich cwyn, a bod y wybodaeth yr ydych wedi'i rhoi yn wir a chywir.
5. Dylid cyfeirio cwynion i Swyddog Cymorth y Cyngor a'r Tîm Gweithredol a fydd yn rheoli'r broses. Dyma'r cyfeiriad:
Council and Executive Support Officer
General Osteopathic Council, Osteopathy House
176 Tower Bridge Road, London SE1 3LU
Ffôn: 020 7357 6655
E-bost: **council@osteopathy.org.uk**

6. Pan gyflwynir cwyn yn ysgrifenedig gallwn ei phrosesu'n gynt os byddwch yn defnyddio'r **ffurflen gwyno** sydd ar wefan y Cyngor. Dylai pob cwyn ysgrifenedig, a gyflwynir ar y ffurflen neu fel arall, gynnwys y canlynol:
 - a. Disgrifiad clir o'r amgylchiadau sydd wedi arwain at y gŵyn, yn cynnwys manylion pa ddarpariaeth(au) o'r Cod Ymarfer sydd wedi eu torri yn eich barn chi.
 - b. Dylech ddweud a ydych chi eisoes wedi crybwyll eich pryderon wrth yr unigolyn/unigolion sy'n destun y gŵyn ac os ydych chi, beth oedd y canlyniad.
 - c. Disgrifiad o'r hyn a fyddai yn ganlyniad boddhaol i chi.
 - ch. Eich cyfeiriad post llawn a'ch rhif ffôn (a chyfeiriad e-bost os oes gennych chi un).
7. Os ydych yn cyflwyno cwyn dros y ffôn, byddwn yn gofyn am y wybodaeth uchod i lenwi'r ffurflen. Yna, byddwn yn anfon y ffurflen wedi'i chwblhau atoch chi ac yn gofyn i chi lofnodi'r Datganiad gofynnol er mwyn cadarnhau nad oes gennych chi wrthwynebiad i'r unigolyn dan sylw weld eich cwyn, a bod y wybodaeth yr ydych yn ei rhoi yn wir a chywir.
8. Dylech dynnu ein sylw at gwynion cyn gynted â phosibl ac, yn ddelfrydol, o fewn chwe mis i'r mater a achosodd y gŵyn.

CAM 1

9. Rydym yn rhagweld bod modd datrys llawer o gwynion yn ystod y cam hwn. Mae'r weithdrefn ar gyfer Cam 1 fel a ganlyn:
 - a. Bydd y Cyngor Osteopathig Cyffredinol yn cydnabod derbyn eich cwyn ysgrifenedig neu'r Datganiad wedi'i lofnodi o fewn pum niwrnod gwaith.
 - b. Bydd y gŵyn yn cael ei harchwilio gan Gadeirydd y Cyngor, neu gan ddau aelod arall o'r Cyngor ac un aelod arall o'r Cyngor os yw'r gŵyn am Gadeirydd y Cyngor. Bydd y Cadeirydd (neu'r aelodau eraill o'r Cyngor lle bo'n briodol) yn hysbysu'r unigolyn y gwnaed y gŵyn amdano a'i wahodd ef neu hi i gyflwyno sylwadau a gallant ofyn am unrhyw wybodaeth arall a ystyriant yn angenrheidiol er mwyn cynnal yr ymchwiliad.

- c. Os yw'r Cadeirydd (neu'r aelodau eraill o'r Cyngor lle bo'n briodol) yn ystyried bod modd datrys eich cwyn yng Ngham 1 y weithdrefn, bydd yn ysgrifennu atoch o fewn 21 diwrnod o dderbyn manylion y gŵyn gan Swyddog Cymorth y Cyngor a'r Tîm Gweithredol, yn nodi canlyniadau'r ymchwiliad a'r ateb a awgrymir. Os na ellir rhoi ateb llawn o fewn 21 diwrnod, byddwn yn egluro pam ac yn rhoi dyddiad pryd y gallwch ddisgwyl y byddwch wedi derbyn ateb llawn.
- ch. Os yw'r Cadeirydd (neu'r aelodau eraill lle bo'n briodol) yn ystyried na ellir datrys eich cwyn yng Ngham 1 y weithdrefn, bydd yn ysgrifennu atoch o fewn 21 diwrnod, yn eich hysbysu y bydd eich cwyn yn cael ei hatgyfeirio i Banel am ymchwiliad a gwrandawriad ffurfiol (o dan Gam 2 y weithdrefn, a nodir isod). Os nad yw hi'n bosibl anfon ateb llawn o fewn 21 diwrnod, byddwn yn egluro pam ac yn rhoi dyddiad pryd y gallwch ddisgwyl y byddwch wedi derbyn ateb llawn.
- d. Byddwn yn atgyfeirio i banel o dan Gam 2 y weithdrefn hefyd pan fyddwch yn anhapus gyda chanlyniad yr ymchwiliad neu'r ateb a awgrymir gan y Cadeirydd (neu aelodau eraill y Cyngor) yng Ngham 1.

CAM 2

10. Cwyn

- a. Pan fo Cadeirydd (neu aelodau eraill o'r Cyngor) wedi atgyfeirio eich cwyn i banel ar gyfer ymchwiliad a gwrandawriad ffurfiol, defnyddir eich Ffurflen Gwyno a'ch Datganiad gwreiddiol. Pan fydd eich cwyn wedi'i hatgyfeirio oherwydd eich bod yn anfodlon â'r ymchwiliad a'r ateb a awgrymwyd yng Ngham 1, bydd angen i chi gyflwyno llythyr wedi'i lofnodi gyda'ch Ffurflen Gwyno a'ch Datganiad gwreiddiol yn dweud pam nad ydych chi'n fodlon â'r ymchwiliad Cam 1 neu'r ateb a awgrymwyd.
- b. Bydd Cadeirydd y Panel yn ystyried cwynion o fewn tri mis o'u derbyn (gweler paragraff 11 isod). Gall Cadeirydd y Panel estyn y cyfnod hwn dan amgylchiadau eithriadol os bydd angen rhaŵr o amser i sicrhau ystyriaeth deg a chynhwysfawr o'r gŵyn.

11. **Aelodaeth y Panel**

Bydd y Cadeirydd yn trefnu i'r gŵyn gael ei harchwilio'n llawn drwy sefydlu Panel o dri unigolyn a benodir gan y Cyngor. Bydd y Panel yn cynnwys un aelod o'r Cyngor (nad yw wedi bod yn rhan o ymchwiliad Cam 1 ac nad oes ganddo unrhyw fuddiannau sy'n gwrthdaro) a dau aelod arall o blith aelodau cyrff sy'n rheoleiddio proffesiynau iechyd eraill a/neu gyrrff tebyg eraill. Bydd gan o leiaf un aelod o'r panel brofiad cyfreithiol priodol neu brofiad o weithredu yn y maes barnwrol. Bydd y panel yn penodi Cadeirydd o blith ei aelodau.

12. **Gweithdrefn**

- a. Anfonir copïau o'ch Ffurflen Gwyno a'ch Datganiad ac unrhyw ddogfennau ategol perthnasol eraill at aelodau'r panel a'r unigolyn y gwnaed y gŵyn amdano. Bydd gofyn i'r unigolyn hwnnw ddarparu ymateb ysgrifenedig o fewn amser rhesymol, i'w bennu gan y panel.
- b. Bydd y panel yn ystyried yr ymateb ac yn gwneud unrhyw ymholiadau angenrheidiol, sef eich holi chi fel achwynydd, a'r unigolyn y gwnaed y gŵyn amdano, fel y gellir ystyried y materion yn drylwyr. Gall y panel wrando ar dystiolaeth hefyd a bydd gan y ddwy ochr hawl i gael gwrandawriad llafar, gyda 'chefnogwr' yn bresennol, o fewn amser rhesymol i'w bennu gan y panel. Dim ond mewn amgylchiadau eithriadol y gall cefnogwyr annerch y panel a hynny gyda chytundeb y panel. Os nad yw'r naill ochr na'r llall yn gofyn am wrandawriad llafar a bod y panel yn ystyried hynny'n briodol dan yr holl amgylchiadau, gellir ystyried y mater ar sail y dystiolaeth ysgrifenedig yn unig.
- c. Darpariaethau gweinyddol
 - i) Bydd holl benderfyniadau'r panel yn cael eu gwneud yn ôl mwyafrif syml o bleidleisiau gyda Chadeirydd y Panel yn defnyddio pleidlais fwrw os oes angen.
 - ii) Cynhelir cyfarfodydd y panel yn breifat oni bai fod Cadeirydd y Panel yn penderfynu fel arall.
 - iii) Gall y panel ofyn am unrhyw gyngor, yn cynnwys cyngor cyfreithiol annibynnol neu gymorth ysgrifenyddiaeth fel mae'n gweld yn dda.
- ch. Ar ôl cwblhau'r ymholiadau ac unrhyw wrandawriad, bydd y panel yn penderfynu a ddylid dyfarnu o blaid y gŵyn ac os felly, pa gamau gweithredu neu gosb sy'n briodol.

13. **Cosbau**

Os yw'r panel yn dod i'r casgliad nad yw'r Cod wedi'i dorri bydd yn argymhell i'r Cyngor nad oes angen cymryd unrhyw gamau. Ond os bydd y panel yn dod i'r casgliad bod y Cod wedi'i dorri, bydd yn argymhell un neu fwy o'r canlynol i'r Cyngor:

- a. bod yr unigolyn yn cael ei geryddu gan y Cyngor a bod hyn yn cael ei gofnodi yn y cofnodion perthnasol.
- b. bod yr unigolyn yn cael ei wahardd o'i swydd am gyfnod penodedig nad yw'n fwy na chwe mis i gyd.
- c. bod y Cyngor yn argymhell i'r Cyfrin Gyngor y dylai'r unigolyn gael ei symud o'i swydd o dan ddarpariaethau priodol Rheolau y Cyngor Osteopathig Cyffredinol (Cyfansoddiad) 2009 (OS 2009/263) neu Orchymyn y Cyngor Rheolau y Cyngor Osteopathig Cyffredinol (Cyfansoddiad y Pwyllgorau Sefydlog 2009 (OS 2009/468) neu fod y Cyngor yn symud yr unigolyn o'i swydd os yw'r penodiad yn benodiad y Cyngor.
- ch. bod adroddiad yn cael ei gyflwyno i'r heddlu, neu awdurdod arall, lle bo'n briodol.

14. Yna, bydd Cadeirydd y Panel yn paratoi adroddiad am y gŵyn, am ganfyddiadau'r panel, am ei argymhelliad/argymhellion ac am y rhesymau. Bydd hwn yn cael ei ddarparu i'r partiön cysylltiedig cyn gynted â phosibl. Bydd copi o'r adroddiad yn cael ei anfon i'r Cyngor er mwyn gweithredu hefyd.

15. **Gweithdrefn y Cyngor**

- a. Bydd adroddiad ac argymhelliad/argymhellion y panel yn cael eu hystyried mewn sesiwn breifat yng nghyfarfod nesaf y Cyngor. Os yw'r panel wedi argymhell y dylid rhoi gwybod i'r heddlu am y mater, ni ddylid gwneud unrhyw adroddiad yn gyhoeddus nes cwblhau unrhyw gamau gweithredu gan yr heddlu neu'r awdurdodau sy'n erlyn.
- b. Gall y Cyngor:
 - i) Gytuno i osod y gosb a argymhellir drwy bleidlais fwyafrif y rhai sy'n bresennol ac yn pleidleisio (ac eithrio'r aelod dan sylw os yw'r gŵyn yn ymwneud ag aelod o'r Cyngor), neu
 - ii) dan amgylchiadau eithriadol, ailgyfeirio'r mater i'r panel am ystyriaeth bellach. Ni all y Cyngor ddisodli ei benderfyniad ei hun gyda phenderfyniad y panel.

- c. Pan fo'r Cyngor wedi derbyn penderfyniad y panel bydd adroddiad ar ganlyniad y mater yn cael ei gyflwyno yn sesiwn gyhoeddus y Cyngor, ac eithrio mewn achosion pan fydd ymchwiliad gan yr heddlu neu awdurdod arall wedi'i argymhell a heb ddod i ben eto neu pan fo'r Cadeirydd yn ei hystyried yn amhriodol gwneud hynny. Pan fydd cosb wedi'i hargymhell byddwn yn ei gweithredu cyn gynted â phosibl.
- ch. Os yw'r Cyngor wedi ailgyfeirio'r mater i'r panel am ystyriaeth bellach, bydd yn nodi yn ysgrifenedig y rhesymau pam ei fod wedi gwneud hynny, a gall hysbysu'r panel am y ffactorau y cred y dylai'r panel eu hystyried wrth roi ystyriaeth bellach i'r gŵyn.
- d. At ddibenion ailystyried, gall y panel, dan amgylchiadau eithriadol (fel salwch, marwolaeth, cyfnod swydd aelod o'r panel yn dod i ben), gynnwys unigolion gwahanol i'r aelodau blaenorol.

16. **Ystyriaeth bellach gan y panel**

- a. Bydd y panel yn adolygu ei benderfyniad o dan baragraff 12 uchod, yng ngoleuni'r rhesymau a'r cyngor a ddarparwyd gan y Cyngor, o fewn 21 diwrnod i'w ailgyflwyno gan y Cyngor.
 - b. Bydd y darpariaethau gweinyddol a nodir ym mharagraff 12c a ch yn berthnasol pan fydd y panel yn rhoi ystyriaeth bellach i'r gŵyn.
 - c. Pan fydd y panel wedi gorffen ystyried y gŵyn ymhellach bydd yn ailgyflwyno ei adroddiad gwreiddiol i'r Cyngor ynghyd â'i ganfyddiadau, ei argymhellion a'r rhesymau o'i ystyriaeth bellach. Bydd y rhain yn cael eu darparu i'r partiön cysylltiedig hefyd.
17. Bydd adroddiad newydd y panel yn cael ei ystyried mewn sesiwn breifat yng nghyfarfod nesaf y Cyngor, a fydd yn derbyn penderfyniad a chosb argymelledig y Panel, a bydd darpariaethau paragraff 15c uchod yn berthnasol.

Os nad ydych chi'n fodlon â'r ymateb terfynol gan y Cyngor Osteopathig Cyffredinol

18. Daw gweithdrefn gwyno'r Cyngor Osteopathig Cyffredinol i ben pan fo'r Cyngor yn derbyn penderfyniad a chosb argymelledig y panel. Os nad ydych chi'n fodlon â phenderfyniad terfynol y Cyngor a'ch bod am fynd â'r mater ymhellach, dylech ofyn am gyngor cyfreithiol annibynnol ar wahân. Nodwch y gall terfynau amser fod yn gysylltiedig ag achosion cyfreithiol mewn llys neu dribiwnlysoedd eraill.



**Cyngor
Osteopathig
Cyffredinol**

Os ydych chi'n cael anhawster
darllen neu gael gafael ar y
ddogfen hon, cysylltwch â'r Cyngor
Osteopathig Cyffredinol
ar: 020 7357 6655 x242
neu e-bost: info@osteopathy.org.uk

**The General Osteopathic Council
Osteopathy House
176 Tower Bridge Road
London SE1 3LU**

Ffôn: 020 7357 6655

E-bost: info@osteopathy.org.uk

Gwefan: www.osteopathy.org.uk

Mehefin 2016